Dydd Iau, 29 Ionawr 2026

I: Gadeiryddion Pwyllgor Trallwyso Ysbytai

Cc: Ymarferwyr Trallwyso, Hematolegydd Ymgynghorol, Arweinwyr Trallwyso, Rheolwyr Labordai Trallwyso

**PARTHED: Rhaglen Hyfforddi Trallwyso Uwch Gynorthwy-ydd dan Hyfforddiant**

Annwyl Gydweithwyr,

Mae'r Rhaglen Hyfforddi Trallwyso Uwch Gynorthwy-ydd dan Hyfforddiant ('SSA') yn gwrs ymarferol, sydd wedi'i strwythuro'n dda ar gyfer myfyrwyr meddygol yng Nghymru sydd ar eu blwyddyn olaf, ac sydd wedi bod yn darparu sgiliau a gwybodaeth ar sut i drallwyso gwaed yn ddiogel ac yn briodol ers 2010. Mae rhaglen hon wedi cael ei hwyluso a'i chyflwyno' n bennaf gan ein cydweithwyr sy'n Ymarferwyr Trallwyso, sy'n gweithio ar y cyd gyda'r Tîm Iechyd Gwaed ers ei sefydlu.

Mae'r rhaglen yn cael ei gwerthuso'n bositif drwy'r amser gan y myfyrwyr, ac yn cael ei chanmol am fod yn hynod berthnasol i'w hymarfer clinigol sydd i ddod, yn enwedig mewn meysydd fel;

- Gwneud Penderfyniadau Clinigol
- Adnabod cleifion a samplu diogel.
- Adnabod a rheoli adweithiau trallwyso.

Mae'r rhaglen yn ymateb yn uniongyrchol i argymhellion yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig (IBI), sy'n galw am ddarparu addysg gynhwysfawr ar drallwyso i ddiogelu diogelwch cleifion. Mae Cymru yn parhau i fod ar flaen y gad o ran darparu addysg trallwyso yn y DU, gyda gwledydd eraill wrthi'n llunio cwricwla israddedig, i safoni addysg trallwyso i fyfyrwyr israddedig, yn debyg i'r rhaglen Uwch Gynorthwy-ydd dan Hyfforddiant. Mae ymgorffori'r sgiliau hyn ar y pwynt graddio drwy'r rhaglen Uwch Gynorthwy-ydd dan Hyfforddiant yn helpu i sicrhau bod clinigwyr y dyfodol yn barod i ddarparu gofal trallwyso diogel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae Ymarferwyr Trallwyso ac aelodau eraill o dîm trallwyso ysbytai bob amser wedi bod yn allweddol i gyflawni'r rhaglen Uwch Gynorthwy-ydd dan Hyfforddiant yn llwyddiannus ym mhob un o'r Byrddau Iechyd, ac maen nhw'n hanfodol er mwyn sicrhau hirhoedledd, cynaliadwyedd a llwyddiant y rhaglen hyd yn hyn.

Rydym yn cydnabod y pwysau gweithredol ar draws Byrddau Iechyd, ac yn gwerthfawrogi'r ymdrech sy'n gysylltiedig â rhyddhau staff i gefnogi’r gwaith o gyflawni’r rhaglen hon.

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu'r rhaglen Uwch Gynorthwy-ydd dan Hyfforddiant i archwilio opsiynau ar gyfer darparu model cyflwyno mwy cynaliadwy, sy'n parhau i fodloni argymhellion addysg yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd y newidiadau hyn yn eu lle, yn barod i fedru cyflwyno’r rhaglen ym mis Mai 2026. Felly, bydd y rhaglen yn rhedeg yn ei fformat presennol, gyda mesurau lliniaru ar waith i sicrhau y gellir ei chyflawni'n llwyddiannus.

I'r perwyl hwn, rydym yn ysgrifennu i ofyn am sicrwydd y bydd Byrddau Iechyd yn cefnogi'r aelodau allweddol o staff fydd eu hangen er mwyn cyflawni’r rhaglen yn llwyddiannus ym mis Mai 2026. Er mwyn i hyn ddigwydd, byddai angen i aelodau perthnasol o’r tîm fod ar gael i gyflwyno'r sesiynau sydd wedi’u cynllunio o fewn eu Bwrdd Iechyd ac, os ydy'r gwasanaeth yn caniatáu hynny, cael yr amser a'r adnoddau i allu cefnogi Byrddau Iechyd eraill.

Bydd eich cefnogaeth barhaus yn sicrhau bod Cymru yn parhau i fod yn arweinydd ym maes addysg trallwyso a diogelwch cleifion.

Diolch eto am eich ymrwymiad i'r gwaith pwysig hwn.


Yn gywir,



Sarah Beuschel

Ymarferydd Trallwyso - BIP Aneurin Bevan

Cadeirydd Grŵp Strategaeth Addysg BHNOG



Dr Brian Tehan

Cadeirydd BHNOG

Cynhadledd Y Grŵp Goruchwylio Iechyd Gwaed Cenedlaethol (BHNOG) 2024